

CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT

Dyffryn Ardudwy & Talybont Community Council

Clerc/Clerk: Mrs Annwen Hughes

annwen@btconnect.com

(Ffon: 01766 780971)

25.06.16

Plas Uchaf,
TALSARNAU,
Gwynedd.
LL47 6YA

Annwyl Gynghorydd,

Ysgrifennaf i ofyn am eich presenoldeb mewn cyfarfod o'r Cyngor **nos Fawrth Gorffennaf 5ed 2016** yn Neuadd Gymunedol, Dyffryn Ardudwy am **7.30 o'r gloch**. Bwriedir trafod yr Agenda a ganlyn. Bydd posib i chwi ddod i gael golwg ar y ceisiadau cynllunio sydd wedi cael eu derbyn cyn dechrau y cyfarfod o **6.30 o'r gloch** ymlaen. **BYDD HEIDI WILLIAMS O HAMDDEN HARLECH AC ARDUDWY YN DOD I'R CYFARFOD ERBYN 7.00 O'R GLOCH**

Yn gywir,

Annwen Hughes

Clerc

AGENDA

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.
3. Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Mehefin 7ed 2016
4. Materion yn codi o'r Cofnodion.
5. Datgan Diddordeb.
6. Materion Cyngor Sir.
7. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhester amgaedig).

8. MATERION YN CODI

- a) Cynllun Busnes
 - b) Camerau CCTV
 - c) Neuadd Bentref
 - d) Archwilio'r lloches bws, mynwentydd a parciau chwarae
 - e) Gwefan y Cyngor
 - f) Anfon pigion o'r cofnodion i'r papurau
 - g) Cau banc HSBC Bermo
 - h) Cyfarfod gyda Hamdden Harlech ac Ardudwy - 8.6.16
9. Gohebiaeth (gweler rhester amgaedig).
 10. Adroddiad y Trysorydd
 11. Unrhyw Fater Arall.

Ceisiadau Cynllunio wedi dod i law (hyd at 25.06.16)

Codi estyniad ochr deulawr (bwriad diwygiedig i'r un gafodd ei gymeradwyo o dan ganiatad cynllunio NP5/58/256B dyddiedig 20/10/10) - 12 Glanwerydd, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/256C)

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad wedi ei dderbyn arnynt(hyd at 25.06.16)

Amnewid garej sengl presennol gyda garej dwbl newydd - Y Waun, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/119C)

Gohebiaeth wedi dod i law (hyd at 25.06.16)

Ysgol Ardudwy - llythyr o ddiolch am y cyfraniad ariannol
Cyngor Gwynedd - holiadur ynglyn a glendid stryd
Cyngor Gwynedd - llythyr ynglyn ar toiledau cyhoeddus
Cyngor Gwynedd - ateb ynglyn a ffordd ger Eglwys Llanddwywe
Swyddfa Bost - ateb ynglyn a swyddfa bost y pentre

Anfonebau angen eu talu (hyd at 25.06.16)

Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + costau
Second Life Products Wales Ltd - £408.00 - 1 sedd gyhoeddus newydd

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Sorya Williams - £156.12 - cyfieithu